CYFARFOD	**Cyngor Llawn**
DYDDIAD	**3 Rhagfyr, 2026**
TEITL	**Argymhellion yn deillio o Asesiad Perfformiad Panel – Ymateb y Cyngor**
PWRPAS	**I groesawu a derbyn argymhellion yr adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel yn llawn a mabwysiadu ymateb y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu i'r argymhellion.**
AELOD CABINET	**Cyng. Nia Jeffreys**
SWYDDOG CYSWLLT	**Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr**

1. **Cefndir / Cyflwyniad**

1.1. Mae'r Asesiad Perfformiad Panel yn rhan o'r fframwaith statudol ar gyfer adolygu perfformiad a threfniadau llywodraethu llywodraeth leol yng Nghymru. Mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i gynnal hunanasesiad blynyddol, ac yn ystyried y graddau y mae'r Cyngor:

- yn arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- yn defnyddio ei adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; ac
- â threfniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau'r uchod.

1.2. Nid archwiliad nac arolygiad yw'r Asesiad Perfformiad Panel. Dylid darllen ei gasgliadau ochr yn ochr â hunanasesiad y Cyngor, gwaith archwilio mewnol, ac adolygiadau archwilio a rheoleiddio allanol. Mae'r adroddiad, fodd bynnag, yn darparu her annibynnol werthfawr ac yn nodi meysydd datblygu a fydd yn cryfhau gallu'r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaethau'n gynaliadwy.

1.3. Comisiynwyd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gynnal yr asesiad o'r Cyngor; dyma sydd wedi digwydd ym mhob Cyngor arall yng Nghymru hefyd. Roedd y Panel Asesu yn cynnwys 4 person, gan gynnwys Cadeirydd annibynnol; cymar o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach; uwch swyddog llywodraeth leol sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd (lefel PW neu Gyfarwyddwr) ac uwch aelod etholedig o Gyngor arall. Ceir rhestr o'r aelodau ar gyfer y Panel yng Ngwynedd isod:

- Emlyn Dole – Cadeirydd (Cyn Arweinydd Cyngor Sir Gâr)
- Cyng. Gwyneth Ellis – Aelod Etholedig (Cyngor Sir Ddinbych)
- Rob Thomas – Uwch Swyddog (Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg)
- Sian Elin Flint Freel – cymar o'r sector cyhoeddus, preifat neu wirfoddol ehangach

1.4. Cynhaliwyd y gwaith ar y safle dros bedwar diwrnod, rhwng 10 a 13 Mawrth 2026. Roedd yn cynnwys adolygu dogfennau, data ac adroddiadau allanol, ynghyd â chyfarfodydd a grwpiau ffocws gydag aelodau etholedig, swyddogion, staff, undebau llafur, partneriaid, busnesau, trigolion a chynrychiolwyr cynghorau tref a chymuned.

1.5. Canolbwyntiodd y gwaith ar dair thema yr oedd y Cyngor wedi'u hadnabod fel meysydd lle byddai mewnwelediad allanol yn arbennig o werthfawr:

- **Llywodraethu ac Arweinyddiaeth:** I ba raddau mae'r arweinwyr gwleidyddol ac uwch swyddogion yn gosod cyfarwyddyd clir ac yn annog newid, ac a yw'r strwythurau llywodraethu a'r prosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau'n ddigon cadarn i sicrhau canlyniadau hirdymor gwell ar gyfer preswylwyr?
- **Cynllunio Strategol, Adnoddau a Chapasiti:** A oes gennym ni'r capasiti a'r gallu i ddarparu ein blaenoriaethau strategol, ac a yw'r adnoddau sydd ar gael wedi'u halinio'n effeithiol â'r blaenoriaethau hyn?
- **Monitro, Mesur a Gwerthuso Perfformiad:** A oes gennym ni drefniadau priodol ar waith i fonitro ac asesu perfformiad y gwasanaethau a ddarperir i gwsmeriaid a thrigolion i sicrhau gwelliant parhaus?

1.6. Gweler yn **Atodiad 1** raglen yr wythnos sy'n dangos ehangder y gwaith a'r amrediad eang o gyfleoedd i herio ac arsylwi a gafodd y panel tra yma.

2. **Prif ganfyddiadau'r Asesiad**

2.1. Daeth y Panel i'r casgliad fod Cyngor Gwynedd yn cyflawni ei ddyletswyddau perfformiad o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

2.2. Casglwyd fod trefniadau llywodraethu cadarn yn eu lle, perthnasoedd adeiladol rhwng aelodau a swyddogion, ac ymrwymiad clir i welliant parhaus. Amlygwyd hefyd falchder cryf yn y Sir, ymrwymiad i'w hunaniaeth ddiwylliannol a chymdeithasol, ac enw da'r Cyngor fel partner rhanbarthol dibynadwy a chydweithredol.

2.3. Ar yr un pryd, amlygwyd fod y Cyngor yn wynebu pwysau ariannol sy'n fwyfwy cyfyngol ynghyd â heriau'r gweithlu, a bod hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd cyflymu trawsnewid sefydliadol gan adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes. Dylai'r Cyngor hefyd uno ei drefniadau rheoli perfformiad a risg yn gryfach, gan sicrhau cysylltiad clir â'r Cynllun Corfforaethol a pharhau i gefnogi penderfyniadau tryloyw, craffu cadarn a her adeiladol.

2.4. Derbyniwyd copi terfynol o'r Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel ym mis Mehefin 2026 ac mae'n cynnwys 7 o argymhellion adeiladol i'r Cyngor eu hystyried. Ceir copi llawn o'r Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel yn **Atodiad 2**.

3. **Argymhellion y Panel**

3.1. Yn unol ag Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio ymateb i adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel, gan nodi:

A. I ba raddau y mae'r cyngor yn derbyn casgliadau'r adroddiad ynghylch i ba raddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad;

- Argymhellir y dylid croesawu a derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr Asesiad Perfformiad Panel yn llawn. Mae nifer o'r argymhellion yn faterion oedd wedi eu hadnabod eisoes gan y Grŵp Llywodraethu a rhai ar waith.
- Roedd yn hynod werthfawr cael Panel o unigolion profiadol yma am wythnos a bu eu gwaith yn drylwyr a chynhwysol. Bu arsylwi a herio ar waith Aelodau a Swyddogion ac ystyriwyd swmp sylweddol o ddogfennaeth berthnasol. Roedd yn

arbennig o werthfawr derbyn barn annibynnol gan unigolion sydd wedi cyfrannu a gweithio mewn rolau arweiniol mewn Llywodraeth Leol ar hyd a lled y wlad.

- Mae casgliadau'r adroddiad yn gadarnhaol ac yn rhoi hyder i ni fod y Cyngor yn gweithredu'n briodol wrth gyflawni ein dyletswyddau. Mae hynny i'w groesawu yn amlwg, ond mae hefyd yn cynnig argymhellion a fyddai, o'u mabwysiadu, yn cynnig y cyfle i ni anelu hyd yn oed yn uwch a chyflawni yn well ar ran trigolion Gwynedd.

B. i ba raddau y mae'r cyngor yn bwriadu gweithredu unrhyw argymhellion yn yr adroddiad; ac

C. unrhyw gamau y mae'r cyngor yn bwriadu eu cymryd i gynyddu'r graddau y mae'n bodloni'r gofynion perfformiad.

Mae Argymhellion y Panel fel a ganlyn:

Argymhelliad	Manylion yr Argymhelliad
Argymhelliad 1a *Cynllunio Strategol*	Dylai Cyngor Gwynedd adeiladu ar y dull presennol sy'n seiliedig ar themâu wrth baratoi a datblygu'r Cynllun Corfforaethol nesaf, gyda ffocws ar: • Cynllunio hirdymor. • Gosod gweledigaeth ar gyfer Gwynedd a'r gwerthoedd sy'n hanfodol i'w chyflawni. • Sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol allweddol ar gyfer y Cyngor a Gwynedd fel lle. • Cynnwys staff, aelodau a'r gymuned ehangach i ddatblygu a chyflawni Cynllun Corfforaethol sy'n seiliedig ar le. • Alinio'n llawn â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a Strategaeth Trawsnewid y Cyngor.
Argymhelliad 1b *Cynllunio Strategol*	Dylai Cyngor Gwynedd adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hirdymor.
Argymhelliad 2a *Trawsnewid*	Sicrhau bod y gweithlu yn greiddiol i'r gwaith cynllunio strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor cyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.
Argymhelliad 2b *Trawsnewid*	Dylai Cyngor Gwynedd ddatblygu dull trawsnewidiol unedig sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol a blaenoriaethau newid y sefydliad yn glir. Dylai'r dull hwn: • Weithredu ar lefel strategol y sefydliad cyfan. • Parhau i sylweddoli a defnyddio gwerth partneriaid. • Cael ei integreiddio â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, a'i ariannu drwyddo. • Darparu sail gadarn ar gyfer diogelu gwydnwch ariannol hirdymor y sefydliad.
Argymhelliad 3	Er mwyn meithrin capasiti a chryfhau cydweithio gyda phartneriaid: • Dod â strategaeth economaidd fabwysiedig yn fyw ar bob lefel ledled Gwynedd.

Adnoddau a Gweithio mewn Partneriaeth	• Gwireddu potensial gweithio mewn partneriaeth â chynghorau tref a chymuned. • Cynyddu gallu'r Cyngor i gyflawni ei uchelgeisiau economaidd a chymdeithasol. • Sicrhau bod Cytundeb Mantell Gwynedd yn cael ei weithredu a'i fonitro'n llawn.
Argymhelliad 4 *Rheoli Risg*	Mae angen i Gyngor Gwynedd ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol sy'n mynegi archwaeth risg y Cyngor ac yn: • Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes. • Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Cabinet a'r Cyngor Llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd. • Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y Cyngor.
Argymhelliad 5 *Rheoli Perfformiad*	Dylai Cyngor Gwynedd fireinio ac uno ei drefniadau rheoli perfformiad, gyda ffocws penodol ar ddangos cyfraniadau tuag at: • Gyflawni'r Cynllun Corfforaethol. • Gysylltu â risgiau corfforaethol ac adrannol. • Gynyddu cyfleoedd her gan gymheiriaid ar draws a thu hwnt i'r Cyngor.

3.2. Argymhellir y dylid gweithredu ar argymhellion yr Asesiad Perfformiad Panel yn llawn. Mewn ymateb, mae Cynllun Gweithredu drafft **(Atodiad 3)** wedi'i lunio sy'n amlinellu'r camau gweithredu a'r trefniadau y bwriedir eu rhoi yn eu lle i fynd i'r afael â'r argymhellion a chefnogi gwelliant parhaus.

4. Goblygiadau ac ystyriaethau perthnasol

4.1. Adnoddau a chyllid - Mae argymhellion y Panel yn pwysleisio'r angen i sicrhau bod blaenoriaethau strategol a gwaith trawsnewid y Cyngor yn cyd-fynd â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Nid yw adroddiad y Panel yn nodi cyfanswm cost gweithredu'r argymhellion a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig nac yn cynnwys cais penodol am gyllid ychwanegol. Bydd hyn yn derbyn ystyriaeth wrth ddatblygu'r cynlluniau unigol o fewn y Cynllun gweithredu.

4.2. Risgiau - Mae'r Panel wedi amlygu'r angen i ymateb i bwysau ariannol a heriau'r gweithlu, a chryfhau'r cysylltiad rhwng cynllunio, perfformiad a risg. Mae'r ymateb drafft a'r Cynllun Gweithredu yn ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn.

4.3. Cydraddoldeb, y Gymraeg a llesiant - Nid yw'r adroddiad yn asesu'n benodol sut y byddai mabwysiadu'r ymateb yn effeithio ar gydraddoldeb, y Gymraeg na llesiant. Bydd angen ystyried goblygiadau ar gyfer y tri maes wrth ddatblygu'r cynlluniau unigol o fewn y Cynllun Gweithredu.

5. **Rhesymau dros Argymell y Penderfyniad**

5.1. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod dyletswydd ar y Cyngor i drefnu Asesiad Perfformiad Panel o leiaf unwaith o fewn cylch etholiadol, ac i lunio ymateb i gasgliadau ac argymhellion yr asesiad.

5.2. Cyflwynwyd adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel a'r ymateb drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 22 Hydref 2026. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr ymateb drafft heb argymell unrhyw newid iddo, a chroesawodd y bwriad i gyflwyno diweddariad ymhen 12 mis ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

5.3. Yn ei gyfarfod ar y 10 o Dachwedd 2026 penderfynodd y Cabinet groesawu a derbyn argymhellion yr Asesiad yn llawn gan gymeradwyo'r ymateb drafft a'r Cynllun Gweithredu, ac argymell i'r Cyngor Llawn eu mabwysiadu ar 3 Rhagfyr 2026. Cefnogodd hefyd y bwriad i gyflwyno'r diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymhen 12 mis.

5.4. Cyflwynir yr adroddiad a'r ymateb i'r Cyngor Llawn er mwyn ystyried y canfyddiadau a phenderfynu ar fabwysiadu'r ymateb a'r Cynllun Gweithredu. Yn unol â threfniadau'r Cyngor, y Cyngor Llawn sy'n gyfrifol am fabwysiadu'r ymateb i adroddiad ac argymhellion y Panel.

6. **Camau Nesaf ac Amserlen**

6.1. Cyflwynir adroddiad yr Asesiad Perfformiad Panel a'r ymateb, gan gynnwys y Cynllun Gweithredu, i'r Cyngor Llawn ar gyfer eu mabwysiadu.

6.2. Yn dilyn mabwysiadu'r ymateb, trefnir cyhoeddi adroddiad terfynol yr Asesiad Perfformiad Panel ac ymateb y Cyngor. Darperir copïau i aelodau'r Panel Asesu, Archwilydd Cyffredinol Cymru, Estyn a Gweinidogion Cymru yn unol â'r gofynion statudol.

7. **Argymhelliad**

7.1. Gofynnir i'r Cyngor:

1. Groesawu a derbyn canfyddiadau ac argymhellion yr adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel yn llawn, a gweithredu'r argymhellion cyn gynted â phosibl.
2. Gymeradwyo a mabwysiadu ymateb y Cyngor a'r Cynllun Gweithredu i argymhellion yr Asesiad.
3. Nodi bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi adolygu'r ymateb drafft ar 22 Hydref 2026 (ac nad oedd yn argymell unrhyw newid iddo), a bod y Cabinet, yn ei gyfarfod ar 10 Tachwedd 2026, wedi argymell i'r Cyngor Llawn fabwysiadu'r ymateb a'r Cynllun Gweithredu.
4. Gefnogi'r bwriad i gyflwyno diweddariad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ymhen 12 mis ar y cynnydd wrth weithredu'r argymhellion.

8. **Barn y Swyddogion Statudol:**

i. Y Pennaeth Cyllid

Mae'r Asesiad Perfformiad gan Banel yn cynnig argymhellion defnyddiol ar gyfer cryfhau ymhellach trefniadau llywodraethu'r Cyngor. Bydd swyddogion Cyllid yn cefnogi'r Cyngor fel bo'r angen wrth iddo fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu.

ii. Y Swyddog Monitro:

Sefydlwyd trefniadau Perfformiad ac Asesiadau Perfformiad yn Rhan 6 o Deddf Lywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fel cyfundrefn newydd a ddaeth i rym rhwng 2021 a 2022. Mae cwblhau yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn cynrychioli gwireddu rhan olaf o'r camau sydd angen eu cyflawni o fewn tymor y Cyngor presennol. Mae felly yn gam arwyddocaol yn yr ystyr yna. Amlygir y daith gwblhau yr Asesiad Panel yn yr adroddiad . Mater i'r Cyngor Llawn fydd derbyn yr adroddiad a chymeradwyo y cynllun ymateb yn dilyn ar ystyriaeth y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Rwy'n fodlon fod y broses wedi ei gweithredu yn unol a'r gofynion statudol ac o fewn yr amserlen ar gyfer cyhoeddi yr ymateb.

9. **Barn yr Aelod Lleol**

Ddim yn fater lleol.

10. **Atodiadau**

Atodiad 1 – Rhaglen wythnos yr ymweliad gan y Panel.
Atodiad 2 – Adroddiad Asesiad Perfformiad gan Banel Cyngor Gwynedd: Mawrth 2026.
Atodiad 3 – Cynllun Gweithredu er mwyn ymateb i Argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel.